Cyngor Tref.
CRICCIETH.

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.00.y.h. NOS LUN 12 IONAWR 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR TREF CRICCIETH.

COPI DRAFFT

Gweddi Agoriadol.
,.....
Cymerwyd y Weddi Agoriadol gan y Cyng. Henry Jones.

Cof;-0101/15 Presennol.
.....
Cadeirydd Y Cyng. Eirwyn Williams.
Ia Gadeirydd Cyng. W A Evans.
Cyng.Elisabeth Regan
Cyng. R Cadwalader
Cyng. Waynre Roberts
Cyng. Henry Jones.
Cyng. Dr E Tudor Jones.
Cyng. Elisabeth George
Cyng. Dafydd Lloyd
Cyng.Phil Jones
Cyng. R T Price

Cof;-0201/15 Ymddiheuriadau
.....
Cyng. Sian Williams.

Cof;-0301/15 Datgan diddordeb.
.....
Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd ŵr y rhaglen ac i'w trafod yn y cyfarfod

Cof;-0401/15 Cadarnhau Cofnodion Rhagfyr 2014.
.....
Cadarnhawyd Cofnodion Mis Rhagfyr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-0501/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.
.....
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

Cof;-0601/15 Ceisiadau Cynllunio.
.....

a) Cais C14/1192/35/CT
   Gwaith ar goed.
   Bryn Henllan, Lôn Ednyfed.

PENDERFYNIAD. Argymell caniatáu

Cof;-0701/15 Prosiectau.
.....
Bu trafodaeth ar y syniad o uwch raddio delwedd Arosfa Caerdyni, gan ei bod yn arosfa brysur iawn, llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohoni, pobl yn aros i weld yr olygfa a thynnu lluniau,
Y cam cyntaf yw rhannu'r syniad gyda Chyngor Gwynedd er mwyn ennyn cefnogaeth..

PENDERFYNIAD;- Y Clerc i drefnu cyfarfod safle a'r Cynghorwyr Elisabeth Regan,Phil Jones,R Cadwalader,Eirwyn Williams,Dafydd Lloyd a W A Evans i gynrychioli'r Cyngor Tref.

Cof;-0801/15 Llwybr Rhif 11.
.....
Daeth Aelod o'r Cyngor a lluniau ger bron yr Aelodaeth i dynnu ei sylw i gyflwr presennol y llwybr.mae'r lluniau yn dangos yn glir mwy nag un rhwystr arno. Mae angen sylw bry gan Gyngor Gwynedd.

PENDERFYNIAD;- Y Clerc i anfon copïau o'r lluniau i Swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd a gofyn am ei sylwadau.

Cof 0901/15 Nadolig
.....
Yr oedd yr Aelodau o'r farn fod y goleuadau Nadolig eleni yn edrych yn dda iawn gyda'r ychwanegiad i'r golau o gwmpas yr afon, gyda golwg ar y dyfodol bu trafod

1. Ehangu'r golau o gwmpas yr afon
2. Cael golau ychwanegol yng ngwaelod y stryd fawr
3. Creu cyfrif banc ar wahân ar gyfer costau Golau Nadolig,

PENDERFYNIAD;- Er mwyn cael syniad costau Nadolig y Clerc i dynnu allan costau am y 3 blynedd olaf, fel gallu penderfynu ar faint y swm i roi o'r neilltu yn y cyfrif banc arbennig yma a thrafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Cof;-1001/15 Derbyniadau
.....
DIM

Cof;-1101/15 Taliadau
.....
£97.00 Cyllid y Wlad Siec 100927.
£ 5.98 Copi – Nwyddau Swyddfa 100928

Mynd yn gaeedig drafod Cymynrodd Ddiweddar J T Roberts.
Gwnaed trefniadau i gyfarfod Swyddogion Age Cymru.

Daeth y Cyfarfod i ben am;- 8.00 y.h.
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Lun 9 Chwefror 2015
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 2 Chwefror 2015.